**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Mawrth 2019

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth am ambell fater a godwyd yn ystod ein sesiwn graffu ddiweddar ar yr ail gyllideb atodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym wastad wedi cydnabod bod rhoi'r Ddeddf ar waith yn gofyn am ysgogi newid diwylliannol, ac nad yw'r newid yn mynd i ddigwydd dros nos. Wrth wneud ein paratoadau ar gyfer y gyllideb eleni, rydym wedi ceisio cryfhau ymhellach ein camau i wneud y Ddeddf, a'r pum ffordd o weithio, yn rhan o'r broses gyllidebol a'r ffordd y mae'r Gyllideb cael ei chyflwyno. Mae hon yn broses esblygol yr ydym yn anelu i adeiladu arni o flwyddyn i flwyddyn.

Fel y cydnabu'r Pwyllgor yn ei adroddiad ar y broses graffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, roedd dogfennau'r gyllideb yn cynnwys nifer o newidiadau mewn ymateb i waith craffu'r Pwyllgor y llynedd, gan gynnwys mwy o ffocws yn y naratif ar sut roedd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn ei hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, cydnabu Comisiynydd Cenedlaethau'r dyfodol hefyd bod rhai arwyddion calonogol o gynnydd eleni.

Fel y dywedodd y Gweinidog Cyllid blaenorol yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft, cam mawr ymlaen yn y broses y llynedd oedd cytuno ar ddiffiniad ymarferol o 'atal'. Datblygwyd y diffiniad hwn ar y cyd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y trydydd sector ac amrywiaeth eang o randdeiliaid eraill. Yn nogfennau'r gyllideb, fe wnaethom hefyd gyflwyno nifer o astudiaethau achos i ddangos sut mae'r Ddeddf yn dylanwadu ar ein

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithgareddau ac yn helpu i lywio ein penderfyniadau ariannol. Mae’r astudiaethau achos hefyd yn helpu i dynnu sylw at rai o'r dulliau ataliol yr ydym yn eu defnyddio fel llywodraeth.

Yn y ddadl ar Gyllideb Derfynol 2019-20, fe wnaethom gydnabod yr ansicrwydd sy'n ein hwynebu wrth inni baratoi ar gyfer Cyllideb 2020-21, gan gynnwys yr Adolygiad o Wariant sydd ar ddod a’r ansicrwydd ynghylch Brexit. Bydd y Ddeddf yn helpu i lywio ein trafodaethau cyllidebol drwy amseroedd hyn. Byddaf yn parhau i gynnal cyfarfodydd dwyochrog ar y gyllideb gyda'm cyd-aelodau yn y Cabinet, lle y bydd y Ddeddf yn parhau'n ffocws allweddol i’r drafodaeth. Rwyf eisoes wedi trafod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sut y gallwn barhau i weithio gyda'i gilydd ar yr uchelgeisiau hyn cyn Adolygiad Gwariant posibl. Yn unol â’r arfer a fabwysiadwyd gan y Gweinidog Cyllid blaenorol, rwyf yn cynnull cyfarfod 'gwersi a ddysgwyd' rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a grŵp trawslywodraethol o uwch-swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru fis nesaf, i drafod yn fanylach sut y byddwn yn mynd ati o ran proses y gyllideb yn 2019-20 a sut y gallwn wneud gwelliannau pellach i’r ffordd yr ydym yn dangos effaith y Ddeddf ar benderfyniadau cyllidebol.

Edrychaf ymlaen hefyd at weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i fwrw ymlaen â’r agenda bwysig hon.

Hunan-adeiladu Cymru

Bydd ffioedd a thaliadau llog ar fenthyciadau Hunan-adeiladu Cymru i unigolion. Bydd Banc Datblygu Cymru yn monitro cynnydd yr adeiladu, a dim ond pan fydd angen cyllid arnynt y bydd hunan-adeiladwyr yn gallu tynnu’r benthyciad i lawr . Ni fydd yr hunan-adeiladwr ond yn talu llog ar y swm o arian y bydd yn ei dynnu i lawr, a bydd hyn hefyd yn ei ysgogi i gwblhau’r adeilad yn gyflym a chronni llai o log. Ar ôl ad-dalu’r benthyciad a’r ffioedd a’r taliadau cysylltiedig, rydym yn rhagweld y bydd gan yr hunan-adeiladwr 25-30% o ecwiti yn ei gartref newydd.

Buddsoddi i Arbed ac Arloesi i Arbed

Mae adroddiad blynyddol diweddaraf Buddsoddi i Arbed i'w weld yma:

https://beta.llyw.cymru/buddsoddi-i-arbed-adroddiad-blynyddol-2018

Nid oes adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi ar gyfer Arloesi i Arbed ers i’r trefniant partneriaeth sydd y tu cefn i’r Gronfa ddod i rym ym mis Chwefror 2017. Mae'r gronfa hon yn gweithredu mewn ffordd wahanol i Buddsoddi i Arbed gan fod ganddi gylchoedd sy’n gweithio drwy gyfnodau gwahanol, sef:

- Ymwybyddiaeth
- Ymchwil a datblygu
- Cyflwyno achos busnes
- Cais am fenthyciad
- Gweithredu

Mae’r cylch hwn yn para am fwy na 12 mis. Dechreuodd y rownd geisiadau gyntaf ym mis Chwefror 2017 a chyrraedd cam y cais am fenthyciad yn haf 2018. Wrth i’r broses hon fynd rhagddi ar gyfer y rownd gyntaf, dechreuodd cylch yr ail rownd geisiadau ym mis Mai 2018 a bydd yn cael ei gwblhau ddiwedd 2019. Felly, byddai adroddiad blynyddol tebyg i adroddiad blynyddol Buddsoddi i Arbed yn anymarferol, gan y byddai lefel y manylder bob blwyddyn yn amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, y bwriad yw llunio adroddiad terfynol ar y fenter gyfan yn gynnar yn 2020. Bydd hyn debyg i'r adroddiad ar Buddsoddi i Arbed, ond bydd yn cynnwys llawer mwy o fanylion o ran y gwersi a ddysgwyd a chanlyniadau’r ymchwil a wnaed ar brosiectau amrywiol.

Mae ein partneriaid wedi cyhoeddi llawer o wybodaeth ar y we am y cynllun Buddsoddi i Arbed. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau ar bob prosiect, gydag astudiaethau achos a'r gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn. Mae Nesta (y prif bartner yn y fenter) hefyd wedi cyhoeddi canllaw ar gyfer y sector cyhoeddus ar sut i weithredu cronfa mewn ffordd debyg i Buddsoddi i Arbed. Dyma'r dolenni perthnasol:

https://www.NESTA.org.uk/project/Innovate-Save/

http://ylab.wales/wp-content/uploads/2019/01/Y-LAB-Innovation-on-loan-Practice-Guide-F1-web.pdf

O ran y cwestiwn ynghylch prif-ffrydio prosiectau a gefnogwyd gan Buddsoddi i Arbed, mae hyn wedi bod yn cael ei ofyn yn gyson ers dyddiau cynnar y gronfa. Nid nodwedd o Buddsoddi i Arbed yn unig ydyw, ond mentrau eraill hefyd fel prosiectau enghreifftiol Bevan yn y GIG. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud bellach ar y cwestiwn hwn. Mae Uned Gyflawni Cyllid GIG Cymru yn cynnal dadansoddiadau manwl o wariant mewn meysydd gwahanol ar draws y byrddau iechyd. Mae hyn yn caniatáu i gwestiynau gael eu gofyn ynghylch pam y mae costau' amrywio a pham nad sefydliadau wedi mabwysiadu arferion mwy cost-effeithiol y profwyd eu bod yn gweithio mewn mannau eraill. Mae'r dull hwn o herio yn esgor ar rai canlyniadau positif yn barod.

Mae darn arall o waith ar y defnydd o arferion da ac arloesedd yn cael ei wneud ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd a Nesta. Prosiect ymchwil yw hwn sy'n ceisio deall y gwahanol rwystrau i brif-ffrydio'r prosiectau a pha gamau y gellir eu cymryd i annog cynnydd. Mae'n edrych ar nifer o feysydd, gan gynnwys y nodweddion sy'n gwneud newidiadau penodol yn gludadwy, effaith yr amgylchedd ariannol, amgylcheddau sefydliadol, a'r seicoleg y tu ôl i'r prosesau penderfynu ar gyfer prif-ffrydio. Y nod yw cynhyrchu adroddiad ar y canfyddiadau yn yr haf a chynnal cyfres o ddigwyddiadau i roi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau hyn. Os hoffai'r Pwyllgor neilltuo amser ar ôl toriad yr haf i gael eu briffio ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, byddwn yn hapus i sicrhau bod hynny'n cael ei drefnu.

Yn unol â chais y Pwyllgor, gweler hefyd fanylion y cynlluniau ymadael gwirfoddol blaenorol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

### Cynllun 2018-19

Nid yw cynllun 2018-19 wedi dod i ben eto, ac o'r herwydd mae'n rhy gynnar i ddarparu ffigurau pendant ar gyfer nifer yr ymadawyr, y costau a'r arbedion. Mae manylion cynlluniau ymadael gwirfoddol Llywodraeth Cymru yn cael eu nodi yn ei chyfrifon cyfunol blynyddol.

### Arbedion

Mynegir y rhain fel cyfnod ad-dalu. Dyma gyfanswm cost ymadael wedi'i rannu â chost cyflog misol yr aelod staff sy'n ymadael. Rydym yn disgwyl i'r arbedion o gynllun 2018-19 fod o fewn yr ystod ad-dalu o 10 i 14 mis. Mae hyn yn debyg i lefelau'r arbedion a gafodd eu gwneud drwy gynlluniau'r ychydig flynyddoedd diwethaf.

### Cynlluniau cyn 2018-19

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu ymadawiad gwirfoddol gan 219 o aelodau staff rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2018. Mae hyn wedi costio cyfanswm o £8.424m.

| **Blwyddyn ariannol** | **Math o gynllun** | **Nifer yr ymadawiadau** | **Cyfanswm cost yr adnoddau** |
|---|---|---|---|
| | | | £'000 |
| | | | |
| 2017-18 | Cynllun Ymadael Gwirfoddol | 156 | 5,884 |
| 2016-17 | Cynllun Ymadael Gwirfoddol | 21 | 709 |
| 2015-16 | Cynllun Ymadael Gwirfoddol | 42 | 1,831 |
| | **Cyfanswm** | **219** | **8,424** |

Talwyd yr holl gostau ymadael yn unol â darpariaethau cynllun iawndal y Gwasanaeth Sifil, sy'n gynllun statudol a wneir o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.